


# Blwyddyn 4

Mrs. Sheena Dorkins - Mrs. Ffion Hughes - Miss. Meirwen Hughes



## THEMA'R TYMOR

Tymor yma ein thema fydd  
'PORTMEIRION'

<http://www.portmeirion-village.com/?IID=2>

Bydd y thema hyn yn ein gallugoi i leoli a deall lleoedd gan edrych ar gynefinoedd lleol. Byddwn hefyd yn edrych ar nodweddion gwaith David Hockney yn ogystal â chyfieithiad y Beibl i'r Gymraeg.




## GWAITH CARTREF

Bydd gwaith cartref yn cael ei rannu ar Ddydd Gwener a bydd gofyn iddynt ei ddychwelyd i'r ysgol ar Ddydd Llun.

Ar benwythnosau pan na fydd gwaith cartref i'r plant, yna gellir ymchwilio i'r thema, ymarfer tablau targed, edrych ar wefannau defnyddiol yn ogystal a darllen.

## DATHLU 150 MLWYDDIANT 'Y WLADFA'!

Rydym ni hefyd wedi gwirioni cael gwahoddiad gan Ysgol Pentreuchaf i fod yn rhan o dathliadau penblwydd Y Wladfa, Patagonia yn 150! Bydd Mr. Dylan Roberts yn cyflwyno sioe sleidiau i ni am Batagonia ac yna bydd y prifardd Guto Dafydd yn dod i'n helpu ysgrifennu cân ar gyfer yr achlysur. Gwahoddwyd Glyn Roberts i'n helpu i feddwl am gerddoriaeth addas i'n cân. Byddwn yn recordio mewn stiwdio ddiwedd Mai. Bydd ein cân yn cael ei chynnwys ar gryno ddisg sy'n cael ei chreu fel rhan o'r dathliadau.



## COFNOD DARLLEN

Er mwyn cefnogi datblygiad eich plentyn, cynghorir chi i gyd-darllen am rhwng 5-10 munud yn ddyddiol.

Bydd y plant yn dod a'u Cofnod Darllen adref ar Ddydd Gwener a'i ddychwelyd i'r ysgol ar Ddydd Llun.

## TRIPIAU/GWEITHGAREDDAU

Byddem yn ymweld â Phortmeirion er mwyn ymchwilio i'r thema a chynnal gwaith maes. Bydd nifer o weithgareddau'r Urdd yn ogystal, e.e Rhedeg trawsgwlad ag athletau. Hefyd, cynhelir nifer o gystadlaethau rhedeg - gweler hysbysfwrdd yr ysgol. Bydd gweithgareddau dalgylchol yn cael eu cynnal yn ystod y tymor. Yn ogystal a'r mabolgampau blynyddol yn ystod yr Wythnos Chwaraeon.



## ADDYSG GORFFOROL

Yn ystod y gwersi Addysg Gorfforol y tymor yma bydd plant Blwyddyn 4 yn rhedeg trawsgwlad, datblygu sgiliau athletau a chyfeiriannu.

Gofynnir yn garedig i'r plant ddod a'u dillad Addysg Gorfforol i'r ysgol ar Ddydd Llun a'u cadw yn yr ysgol am yr wythnos.